

Dogfen Lefel Gwasanaeth ar gyfer Rheoli Adeiladu'r Awdurdod Lleol

Ebrill 2002



Cynnwys

- Cyflwyniad 1
- Gwasanaeth cost effeithiol 1
- Darpariaeth effeithlon 2
- Ansawdd y gwasanaeth 2
- Ac i orffen.. 3
- Gwybodaeth a chysylltiadau 3

*Cyfarwyddiaeth
Gwasanaethau Datblygu
Prif Syrffwr Rheoli
Adeiladau: Dave Sharp
Stryt y Lampint,
Blwch SP 1290,
Wrecsam, LL11 1WL.
Ffôn: 01978 292050
Ffacs: 01978 292502*

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r lefel isaf o wasanaeth a dderbyniwch gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Yn ychwanegol at gynnwys y ddogfen hon mae'r awdurdod yn fodlon addasu'r lefel o wasanaeth ar gyfer anghenion eich cwmni ac ar gyfer pob un o'ch datblygiadau.

***Datganiad o Fwriad**
I ddarparu gwasanaeth
Rheoli Adeiladu effeithlon,
sy'n gost effeithiol ac yn
ymwybodol o anghenion y
cwsmer, gyda'r amcan o
sicrhau amgylchedd
adeiledig iach a diogel.*

2. Gwasanaeth Cost Effeithiol

Nid lefel y ffioedd yn unig sy'n dangos bod gwasanaeth yn gost effeithiol.

Mae bod yn gost effeithiol yn ymgorffori'r holl gysyniad o lefel gwasanaeth ac yn galluogi eich cwmni i gwblhau prosiect o fewn yr amser a raglenwyd heb gostau ychwanegol.

- Gwerthfawrogwn y dylai lefel y ffioedd fod yn gymesur â'r gwasanaeth a ddarparir. Yn unol â'ch anghenion byddwn yn trafod ein ffioedd ar sail y lefel o wasanaeth sydd ei angen, a chytuno ar randaliadau lle bynnag fo hynny'n bosibl.
- Anogwn drafodaethau cynnar ac ymgynghoriadau anffurfiol cyn cyflwyno cais. Gall ymgynghoriadau cynnar fod o fudd sylweddol gan y gellir cyflwyno cynlluniau gan wybod na ddylai newidiadau mawr i'r cynllun fod yn angenrheidiol ac y gall gwaith ar y safle ddechrau a pharhau yn gyflym.
- Anogwn y defnydd o'n hymagwedd Tîm Datblygu (siop-un-stop) fel y gall pobl broffesiynol berthnasol gynghori'r tîm cynllunio mewn un cyfarfod.
- Er mwyn eich galluogi i gadw o fewn terfynau eich cyllideb, gweithiwn yn agos gyda'ch rheolwyr safle i addasu'r gwasanaeth archwilio a sicrhau na achosir oedi diangen.
- Er mwyn arbed arian sylweddol, medrwn eich cynorthwyo i sicrhau cymeradwyaeth genedlaethol gynabyddedig ar gyfer eich cynlluniau drwy'r LANTAC National Type Approval Scheme.



Estyniad JCB



Byd Dŵr Wrecsam

- Ymgynghorwn gydag awdurdodau gorfodi perthnasol. Bydd hyn yn fuddiol ar gyfer cynhyrchu ymateb cyd-drefnus i'ch prosiect.
- Rydym wedi mabwysiadu'r Safonau Perfformiad Rheoli Adeiladu Cenedlaethol ac rydym yn gweithio tuag at eu gweithredu'n llawn.
- Rydym yn hybu defnydd o'r Cynllun Partneriaeth. Ble bynnag y lleolir eich prosiect, gallwch ddefnyddio gwasanaeth Rheoli Adeiladu Wreccsam i brosesu eich cais.

Credwn fod ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth â gogwydd cwsmer-gyfeiriedig a chost effeithiol yn cyrraedd safonau dihafal.

3. Darpariaeth Effeithlon

Ein prif amcan ydi cyflenwi gwasanaeth effeithlon fydd yn fuddiol i'n cwsmeriaid. Credwn mai drwy'r dulliau canlynol y gwneir hyn.

- Byddwn yn cydnabod derbyn pob cais o fewn dau diwrnod gwaith.
- Archwiliwn eich cynlluniau cyn gynted â phosibl ac fel rheol cysylltir â chi o fewn 10 niwrnod gwaith ar gyfer ceisiadau preswyl dros 4 annedd a 3 wythnos ym mhob achos arall.
- Ar gyfer prosiectau mawr gallwn ganiatáu i chi gyflwyno cynlluniau yn raddol dros gyfnod i ateb eich gofynion.
- Rydym yn monitro ein gwasanaeth yn rheolaidd i sicrhau y gwneir penderfyniad o fewn y cyfnod statudol.
- Anogwn chi i wneud y defnydd gorau o gymeradwyaethau graddol neu amodol.
- Derbyniwn geisiadau ffôn ar gyfer archwiliadau safle.
- Darparwn wasanaeth archwilio ar yr un diwrnod a gwarantir pob archwiliad o fewn 24 awr.

*Yn ychwanegol cynhelir 80% o archwiliadau safle o fewn 4 awr os derbynnir cais cyn 10.30am. Ffoniwch 01978 292050 i drefnu archwiliad neu am unrhyw ymholiad cyffredinol arall.

Mae gwasanaeth ateb 24 awr hefyd ar gael: 01978 292567.

Credwn fod cyflenwi ein gwasanaeth yn effeithlon yn caniatáu i'n cleientiaid symud ymlaen heb oedi a chyda'r hyder fod yr holl waith yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu.



Coleg Iâl

4. Ansawdd y Gwasanaeth

Mae Rheoli Adeiladu'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd ansawdd ac yn seilio ei lefel gwasanaeth arno. Credwn fod ansawdd y gwasanaeth a ddarparwn yn ddihafal:

- Darparwn gymorth a chynghor ar unrhyw fater yn ymwneud â Rheoliadau Adeiladu.
- Gallwn gynnig cynghor ar newidiadau technegol arfaethedig i ddeddfwriaeth Rheoli Adeiladu.
- Mae gan staff y gwasanaeth brofiad a gwybodaeth leol eang.
- Cyhoeddwn Hysbysiadau Cymeradwyaeth ffurfiol.
- Archwiliwn yr elfennau allweddol bob amser, yn cynnwys:-
 - a) Dechrau'r gwaith
 - b) Cloddiad ar gyfer y sylfeini
 - c) Concrit y sylfeini
 - d) Cyn gorchuddio'r memrwn diogelu rhag lleithder
 - e) Cyn gorchuddio'r draeniau

Rydym yn monitro dulliau yn barhaol i sicrhau fod ansawdd ein Gwasanaeth Rheoli Adeiladu yn cael ei gynnal a'i wella pan fo angen.

f) Cwblhad terfynol

- Byddwn yn darparu a chynnal llyfr cofnod o'r safle i gadarnhau archwiliadau safle.
- Cyflwynir tystysgrif Cwblhau Rheoliad Adeiladu i chi ar gwblhad boddhaol eich prosiect.
- Rydym yn cadw cofnodion clir, cywir a manwl o'ch gwaith.

5. Ac i orffen...

Gyda'r profiad helaeth a'r wybodaeth leol sydd ar gael yn Is-adran Rheoli Adeiladu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gall cwsmeiriad sy'n manteisio ar y gwasanaeth annibynnol hwn fod yn sicr mai eu diddordeb hwy fydd yr ystyriaeth bennaf bob amser.



Unedau diwydiannol

6. Gwybodaeth Cysylltiadau

Cysylltwch â'r Pennaeth Rheoli Adeiladu am wybodaeth bellach ynglŷn ag ansawdd uchel y gwasanaeth y medrwn ei gynnig. Gellir trefnu i chi ymweld â'r swyddfeydd a thrafod lefel o wasanaeth sy'n addas ar gyfer eich anghenion.

Eich cyswllt Rheoli Adeiladu'r Awdurdod Lleol ydi:-

Dave Sharp **Prif Syrfëwr Rheoli Adeiladu** 01978 292551
e-bost: dave.sharp@wrexham.gov.uk

Ardal y Gorllewin

Ralph Ellis e-bost: ralph.ellis@wrexham.gov.uk 01978 292553

Dave Miller e-bost: dave.miller@wrexham.gov.uk 01978 292568

Barry Jones e-bost: barry.jones@wrexham.gov.uk 01978 292562



Datblygiadau tai

Ardal y Dwyrain

Richard Roberts **Uwch Syrfëwr Rheoli Adeiladu** 01978 292556
e-bost: richard.roberts@wrexham.gov.uk

Shaun Roberts e-bost: shaun.roberts@wrexham.gov.uk 01978 292552

Joanne Davies e-bost: joanne.davies@wrexham.gov.uk 01978 292553

Stephen Jones e-bost: stephenL.jones@wrexham.gov.uk 01978 292554

